## Nosweithiau Rhieni

Braf oedd gweld cymaint o rieni a gwarcheidwaid yn dod i'r ysgol yr wythnos hon ar gyfer ein cyfarfodydd Noson Rhieni. Bydd cyfleoedd ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gwrdd ag athrawon eich plant ac i ddysgu mwy am eu cynnydd. Diolch yn fawr i'r holl staff am eich cyfraniadau pwysig yr wythnos hon.

## Parents' Evening Meetings

It was great to see so many parents and guardians come to school this week for our Parents' Evening meetings. There will be additional opportunities during the year to meet your children's teachers and to learn more about your child's progress. Many thanks to all the staff for your important contributions this week.




## Twrnamaint Pêl-droed 5 bob ochr

Hoffwn longyfarch y criw yma o fechgyn Blwyddyn 6 am gynrychioli'r ysgol yn wych yn nhwrnamaint 5 bob ochr Caerdydd a'r Fro yr wythnos hon. Roedd bob un gêm yn gystadleuol tu hwnt a gorffenodd y tim mewn safle parchus tu hwnt yn y tabl terfynnol!

## 5-a-side Football Tournament

I would like to congratulate this group of Year 6 boys for representing the school brilliantly in the Cardiff and Vale 5 a side tournament this week. Every game was extremely competitive, and the team finished in a very respectable position in the final table!

## Diwrnod Agored y Dosbarth Derbyn, 2026

Braf oedd croesawu nifer o rieni a gwarcheidwaid i'n Diwrnod Agored ddoe. O Ddydd Llun y 10fed o Dachwedd gallwch wneud cais am le yn yr ysgol, i ddechrau yn ein dosbarth derbyn ym mis Medi 2026. Y 12fed o Ionawr, 2026, yw'r dyddiad cau.

https://emsonline.cardiff.gov.uk/CitizenPortal_LIVE/cy/




## Reception Class 2026 Open Day

It was a pleasure to welcome a number of parents and guardians to our Open Day yesterday. From Monday the 10th of November you can apply for a place at the school, to start in our reception class in September 2026. The closing date for applications is the 12th of January, 2026.

https://emsonline.cardiff.gov.uk/CitizenPortal_LIVE/en/

**Pob Lwc!**

Hoffwn ddymuno pob lwc i bob un o ddisgyblion yr ysgol sydd yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth yfory! Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at wylio bob un ohonoch chi'n perfformio yfory! Diolch o galon i Mrs Griffiths Jones a Mrs Luned Jones am hyfforddi'r plant dros yr wythnosau diwethaf!



**Good Luck!**

I would like to wish all the pupils who are competing in the Gwyl Cerdd Dant Festival in Aberystwyth the best of luck tomorrow! I'm very much looking forward to watching all of you perform tomorrow! A big thank you to Mrs Griffiths Jones and Mrs Luned Jones for coaching the children over the last few weeks!

**Diwrnod Sanau Od, 10/11/25**

Mae Diwrnod Sanau Od yn ddigwyddiad blynyddol sy'n nodi dechrau Wythnos Gwrth-fwlio, a gynhelir i ddathlu'r hyn sy'n gwneud pobl yn unigryw ac i godi ymwybyddiaeth o fwlio. I gymryd rhan, hoffwn wahodd disgyblion a staff i'r ysgol mewn sanau od i ddangos ei bod hi'n beth da ein bod ni i gyd yn wahanol!



**Odd Socks Day, 10/11/25**

Odd Socks Day is an annual event marking the start of Anti-Bullying Week, held to celebrate what makes people unique and to raise awareness of bullying. To take part, I would like to invite pupils and staff to school in odd socks to show that it is a good thing that we are all different!


**Diwrnod Plant mewn Angen, 14/11/25**

Byddwn yn dathlu Diwrnod Plant mewn Angen ar ddydd Gwener, 14/11/25. Hoffai'r Cyngor Ysgol wahodd y disgyblion i'r ysgol yn eu pyjamas i nodi'r achlysur! Bydd ystod o weithgareddau hwylus yn diwgydd yn ystod y dydd.



**Children in Need Day, 14/11/25**

We will be celebrating Children in Need Day on Friday, 14/11/25. The School Council would like to invite the pupils to school in their pyjamas to mark the occasion! There will be a range of fun activities throughout the day.




**Ffrindiau Pwll Coch – Galw am eich hen Eirth/ Tedis!**

Rydyn ni'n casglu hen tedis yn y bag coch ger y Dderbynfa. Byddwn yn adfywio'r tedis gan greu rhai newydd Pwll Coch!

**Ffrindiau Pwll Coch – Teddy Bear Callout!**

We are collecting old teddy bears in the red bag next to the Reception desk. Please give your pre-loved teddy a second life as a Pwll Coch bear!

**Cipolwg Cynnydd, 03/12/25 (Blynyddoedd 1-6)**

Hoffwn wahodd rhieni a gwarcheidwaid o Flynyddoedd 1-6 i'r ysgol rhwng 3:15 a 4:15 ar ddydd Mercher, 03/12/25, ar gyfer cyfarfodydd Cipolwg Cynnydd. Bydd hwn yn gyfle hyfryd i graffu ar lyfrau gwaith eich plant, trafod eu gwaith gyda nhw a thrafod eu cynnydd gyda'r athro dosbarth!

**Progress Pitstop Meetings, 03/12/25 (Years 1-6)**

I would like to invite parents and guardians from Years 1-6 to the school between 3:15 and 4:15 on Wednesday, 03/12/25, for our Progress Pitstop meetings. This will be a wonderful opportunity to look through your children's workbooks, discuss their work with them and discuss their progress with the class teacher!

**Sesiwn Ffoneg Tric a Chlic i Rieni a Gwarcheidwaid, 03/12/25 (Meithrin & Derbyn)**

Hoffwn wahodd rhieni a gwarcheidwaid y Feithrin a'r Dosbarth Derbyn i'r ysgol rhwng 3:15 a 4:15 ar 03/12/25 ar gyfer sesiwn ffoneg Tric a Chlic. Bydd hwn yn gyfle da i ddysgu sut mae staff yn addysgu sgiliau darllen yn y blynyddoedd cynnar. Bydd croeso i chi bigo mewn a mas ar gyfer y cyfarfodydd Cipolwg Cynnydd.

**Welsh Phonics Session for Parents and Guardians, 03/12/25 (Meithrin & Reception)**

I would like to invite the parents and guardians of the Nursery and Reception Classes to the school between 3:15 and 4:15 on 03/12/25 for a 'Tric a Chlic' phonics session. This will be a good opportunity to learn how staff teach reading skills in the early years. You are welcome to come and go for the Progress Pitstop meetings.

## Ffair Aeaf

Rydym yn gyffrous i'ch gwahodd i Ffair y Gaeaf ar ddydd Gwener 28ain Tachwedd 2025, rhwng 3:30 a 5:30yp. Bydd stondinau dosbarth, groto Siôn Corn, crefftau Nadolig, bwyd blasus a llawer mwy o hwyl tymhorol i'r teulu cyfan. Mae'n gyfle gwych i ddod ynghyd a dathlu'r Nadolig. Gobeithiwn eich gweld chi yno! Os hoffech gefnogi gyda'r paratoadau, gofynnwn yn garedig eich bod yn cysylltu â Ross os gwelwch yn dda.




## Winter Fayre

We're excited to invite you to our Winter Fayre on Friday 28th November 2025, from 3:30 to 5:30pm. There will be class stalls, Santa's grotto, Christmas crafts, delicious food and lots more festive fun for the whole family. It's a wonderful opportunity to come together and celebrate the season. We hope to see you there! If you would like help-out with the preparations we kindly ask that you contact Ross. Diolch!

## Teganau yn yr Ysgol

Hoffwn atgoffa rhieni nad yw plant i ddod â theganau i'r ysgol oni bai bod hyn wedi'i gytuno ymlaen llaw gyda'r staff at ddibenion therapiwtig neu feddygol. Gall teganau dynnu sylw yn y dosbarth ac mae perygl iddynt fynd ar goll neu gael eu difrodi. Diolch am eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad gyda'r cais yma.

## Toys in School


We kindly remind parents that children should not bring toys to school unless it has been pre-agreed with staff for therapeutic or medical reasons. Toys can be distracting in the classroom and may get lost or damaged. We appreciate your understanding and cooperation in helping us with this request.

## Watsys Clyfar

Nodyn atgoffa caredig i rieni nad yw plant i wisgo oriawr glyfar i'r ysgol. Gall y dyfeisiau hyn dynnu sylw yn ystod gwersi ac achosi pryderon preifatrwydd. Gofynnwn yn garedig i rieni sicrhau bod y oriawr glyfar yn cael ei gadael gartref.

## Smart Watches

A gentle reminder that children should not wear smart watches to school. These devices can be distracting during lessons and may pose privacy concerns. We kindly ask parents to ensure smart watches are left at home.







**Nodyn Atgoffa**

Gofynnwn yn garedig eich bod yn torri grawnwyn eich plant os gwelwch yn dda. Yn ogsytal, hoffwn ofyn yn garedig nad yw'r disgyblion yn dod â chacennau pen-blwydd i'r ysgol i'w rhannu gyda'u cyfoedion. Diolch yn fawr am eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad.

**Polite Reminder**

Please ensure that you cut your child's grapes before sending them to school as a snack. I would also like to kindly ask that the pupils do not bring birthday cakes to school to share with their peers. Thank you very much for your understanding and cooperation.

**Etholiadau Rhiant Lywodraethwr**

Yn dilyn etholiad hynod gystadleuol, rwy'n falch i'ch hysbysu eich bod wedi ethol 2 Rhiant Lywodraethwr newydd i ymuno â Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Hoffwn longyfarch Mrs. Lara Jones Price a Mr. Rhodri Thomas gan ddiolch o galon i bob un ymgeisydd am eu parodrwydd i gefnogi'r ysgol yn y rôl allweddol hon. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i bob rhiant sydd wedi bod yn aelod o'r corff am y pedair blynedd ddiwethaf. Diolch am eich cyfraniadau amrhisadwy a'ch cefnogaeth ddiflino.

## Parent Governor Elections

Following a highly competitive election, I am pleased to inform you that you have elected 2 new Parent Governors to join the Governing Body of Ysgol Gymraeg Pwll Coch. I would like to congratulate Mrs. Lara Jones Price and Mr. Rhodri Thomas, thanking each and every candidate for their willingness to support the school in this key role. I would also like to thank all parents who have been members of the body for the past four years. Thank you for your invaluable contributions and tireless support.

## Bws Beics Pwll Coch – Plant mewn Angen!

Byddwn yn cynnal Bws Beics arbennig ar ddiwrnod Plant mewn Angen ar ddydd Gwener, 14.11.25. Byddwn yn cwrdd o flaen Chapter am 8.20 i adael am 8.30 neu mae croeso i chi ymuno ar gornel Brunswick/York St am 8.35.

## Pwll Coch Bike Bus – Children in Need!

We will be holding a special Bike Bus on Children in Need day on Friday, 14.11.25. We will meet in front of Chapter at 8.20 to leave at 8.30 or you are welcome to join at the corner of Brunswick/York St at 8.35.

## Dathlu Nadolig gyda Ffrindiau Pwll Coch

- Gŵyl Aeaf Pwll Coch Os allwch chi helpu ar y diwrnod, cysylltwch â Ross Clwb Carco!

- Cerdiau Nadolig - Cyn hir byddwn ni'n anfon cyfarwyddiadau ar sut i ddylunio cerdiau a sut i'w prynnu - edrychwch mas am yr wybodaeth ar Class Dojo.

- Raffl Fawr Pwll Coch - Ry'n ni'n edrych am wobrau gwych - ydych chi'n gweithio neu'n nabod cwmni a fyddai'n gallu cyfrannu rhywbeth? /

- Coed Nadolig - Os ydych yn edrych i brynu coeden go iawn, beth am wneud apwyntiad i brynu yn Tŷ Cerrig - ac wrth drefnu eich slot arlein neu wrth brynu yno, cofiwch sôn am Ysgol pwll coch fel eich elusen o ddewis, bydd hyn yn golygu eu bod yn cyfrannu % at Ffrindiau Pwll Coch.

Am fwy am unrhywbeth o'r uchod, cysylltwch gyda Non ar 07983318740.

## Celebrating Christmas with Ffrindiau Pwll Coch (PTA)

- Christmas Fair (28/11/25) - We need an army of helpers, so if you can help please contact Ross Clwb Carco / Mr Christmas!

-Christmas Cards - soon we'll be sending out instructions on how to design and buy your own cards. Look out for this info on Class Dojo.

-Christmas Raffle - We're looking for support to source prizes. do you work for a company or know a company that'll be keen to donate something? we sell tickets via an online platform so we can add company logos etc!

- Christmas Trees - If looking to buy a Christmas Tree, then book a slot or pop along to Tŷ Cerrig. Add Pwll Coch as your chosen charity / mention us as you pay, and they'll contribute a % of the sale to the PTA!

To find out more or discuss any of the above, contact Non on 07983318740. Diolch!


FRIDEDAYS
BIKE BUS
YSGOL PWLL COCH
BWS BEICS
CYCHWYN: CHAPTER, HEOL Y FARCHNAD
CWRDD: 08:20 & GADAEL: 08:30
#FRIDAYWECYCLE
SCHWALBE
START


FRIDEDAYS
BIKE BUS
YSGOL PWLL COCH
BIKE BUS
START: CHAPTER, MARKET STREET
MEET: 08:20 & DEPART: 08:30
#FRIDAYWECYCLE
SCHWALBE
START

**Dyddiadau Allweddol - Tymor yr Hydref, 2025**

Mae'n bleser cyflwyno trosolwg o ddigwyddiadau'r tymor i chi. Ein gobaith yw bod y rhestr yma'n rhoi blaen-rhybudd i chi o'r ystod o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y tymor o'm blaenau. Mae'n debygol iawn y bydd digwyddiadau sy'n ychwanegol i'r rhain – cadwch lygad ar ein cylchlythyr pythefnosol! Byddwn yn eich hysbysu ar Class Dojo os oes unrhyw newidiadau annisgwyl i'r digwyddiadau isod.

**Autumn Term, 2025 – Key Dates**

It is a pleasure to present an overview of this term's events with you. It's our hope that this list gives you enough notice of the range of events that have been planned for the Autumn term. It is very likely that we will be adding additional events therefore please keep an eye on our fortnightly newsletter! We will notify you on Class Dojo if there are any unexpected changes to the events listed below.

| **Dyddiadau HMS 2025-26 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 05/01/26 |
| Dydd Llun / Monday 13/04/26 |
| Dydd Llun / Monday 20/07/26 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2025-26, cliciwch yma!<br>For a list of 2025-26 term dates, click here! |

| **Teithiau Preswyl 2025-26 Residential Trips** |
|---|
| Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay<br>15/01/26 - 16/01/26 |

| Diwrnodau di-wisg Ysgol/ Non-Uniform Days | Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement | Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events | Cyngherddau Nadolig / Christmas Concerts |
|---|---|---|---|
| **10/11/25**<br><br>Gwisgwch sanau od – Wythnos Gwrth Fwlian<br><br>Wear odd socks for anti-bullying week! | **28/11/25**<br><br>Ffair Nadolig<br><br>Christmas Fayre | **08/11/25**<br><br>Gŵyl Cerdd Dant<br>Cerdd Dant Festival | **04/12/25**<br><br>Blynyddoedd 1&2<br><br>Years 1&2<br><br>14:00 |
| | **03/12/25**<br><br>Cipolwg Cynnydd<br><br>3:15-4:15<br><br>Progress Pit-stop meetings | | **09/12/25**<br><br>Blynyddoedd 3&4<br><br>Years 3&4<br><br>14:00 |
| **14/11/25**<br><br>Plant mewn Angen – Gwisgwch Smotiau!<br><br>Children in Need – Wear Spots! | | | **11/12/25**<br><br>Meithrin & Derbyn<br><br>Nursery & Reception<br><br>9:30 & 14:00 |
| **11/12/25**<br><br>Diwrnod siwmperi Nadolig<br><br>Christmas jumper day | | **11/11/25**<br><br>Pantomeim Bl3 – Bl6<br><br>Year 3 – Year 6 Pantomime | **12/12/25**<br><br>Blynyddoedd 5&6<br><br>Years 5&6<br><br>13:30<br><br>Capel Salem Chapel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19/12/25**<br><br>Diwrnod ola'r tymor<br><br>Last day of term | | **17,18,19/11/25**<br><br>Blynyddoedd 5&6<br><br>Years 5&6<br><br>Gweithdai Radio<br><br>Radio Workshops | |
| | | **20/11/25**<br><br>Parti Cerdd Dant Party<br><br>Sain Ffagan<br><br>St. Fagan's | |
| | | **24/11/25**<br><br>Blwyddyn 6<br><br>Year 6<br><br>Sioe Glantaf<br><br>Glantaf Show | |
| | | **24/11/25**<br><br>Bl. 2&5<br><br>Years 2&5<br><br>Ymweliad y Brigâd Dân<br><br>Fire Brigade Visit | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **25/11/25**<br><br>Merched Bl5&6 – Pêl-droed 5 bob ochr<br><br>Year 5&6 Girls – 5-a-side Football | |
| | | **04/12/25**<br><br>Pêl rwyd Bl5 & Bl6<br><br>Years 5&6 Netball | |